# Prawf budd y cyhoedd ar y sefyllfa bosibl o uno mewn cysylltiad â'r Telegraph Media Group

Diweddariad ar y Broses

Cyhoeddwyd 29 Ionawr 2024

# 1. Diweddariad ar y Broses

1.1 Ar 26 Ionawr 2024, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi Hysbysiad Ymyriad Er Budd y Cyhoedd ("PIIN)[1] o dan adran 42(2) Deddf Menter 2002 (y "Ddeddf") mewn perthynas â'r sefyllfa bosibl o uno sy'n deillio o fwriad RB Investco Limited[2] i brynu'r Telegraph Media Group Limited. Telegraph Media Group yw perchennog papurau newydd The Daily Telegraph a The Sunday Telegraph.

1.2 Ar yr un pryd, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at Ofcom[3] yn rhoi gwybod i ni ei bod yn darparu estyniad i adrodd ar ei PIIN 30 Tachwedd 2023[4] mewn perthynas â RedBird IMI Media Joint Venture LLC yn caffael Telegraph Media Group Limited.

1.1 Mae PIIN 26 Ionawr yn nodi'r un ystyriaethau o ran budd y cyhoedd â PIIN 30 Tachwedd, sef:

- yr angen i gyflwyno newyddion yn gywir (ar sail "cyflwyno newyddion yn gywir");[5]
- yr angen i fynegi barn yn rhydd mewn papurau newydd (ar sail "mynegi barn yn rhydd");[6]

1.2 Rhaid i Ofcom adrodd nawr i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 44A y Ddeddf. Mae PIIN 26 Ionawr a'r llythyr sy'n rhoi gwybod i Ofcom am estyniad i PIIN 30 Tachwedd yn datgan bod rhaid cwblhau ymchwiliad ac adroddiad Ofcom erbyn **9am ar 11 Mawrth 2024**.

1.3 Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar PIIN 30 Tachwedd ar 1 Rhagfyr 2023. Dylid darllen y canllawiau hyn nawr fel pe baent hefyd yn cyfeirio at PIIN 26 Ionawr a'r dyddiadau cau diwygiedig.

1.4 Ni fyddwn yn Gwahodd Sylwadau o'r newydd. Nid oes angen ailgyflwyno tystiolaeth a ddarparwyd i ni eisoes i ymateb pan wnaethom wahodd sylwadau ar 1 Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, caiff rhanddeiliaid sy'n dymuno darparu tystiolaeth ychwanegol sy'n berthnasol i PIIN 26 Ionawr wneud hynny erbyn **6 Chwefror 2024** fan bellaf. Oherwydd yr amserlenni a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, efallai na fyddwn yn gallu rhoi ystyriaeth lwyr i ymatebion a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

1.5 A fyddech cystal â chyflwyno sylwadau drwy e-bost at PublicInterestTest2023@ofcom.org.uk gan atodi eich ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad (Atodiad 1). Rydym yn croesawu ymatebion yn Gymraeg.

---

[1] Daw'r PIIN newydd yn dilyn cyhoeddi 'llythyrau o fwriad' ar 22 Ionawr 2024: https://www.gov.uk/government/collections/proposed-loan-repayment-agreement-for-telegraph-media-group

[2] A/neu unrhyw un o'i riant-gwmnïau, is-gwmnïau, neu ymgymeriadau rhyng-gysylltiedig (gan gynnwys, heb gyfyngiad, Partneriaeth Cyfyngedig RB IMI AIV), neu unrhyw un o'i aseineion, trosglwyddeion neu olynwyr yn y teitl.

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65b3e46d0c75e3000dd8015a/240126_DCMS_Letter_to_Ofcom_-_deadline_extension.pdf

[4] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6568eb392ee693001360cbcf/DCMS_Letter_to_RedBird_IMI_-_Public_Interest_Intervention_Notice.pdf

[5] Adran 58 (2A)(a) y Ddeddf.

[6] Adran 58 (2A)(b) y Ddeddf.

1.6 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a'r geiriau 'Prawf Budd y Cyhoedd 2023' wedi'i nodi arnynt:

Tîm Prawf Budd y Cyhoedd

Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

1.7 Nid oes rhaid i chi gyflwyno copi papur a fersiwn electronig. Ni fydd Ofcom yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymatebion.

1.8 Mae Ofcom yn glynu'n gaeth wrth gyfrinachedd ym mhob agwedd ar ei weithrediadau. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gyflwynir i ymateb i'r gwahoddiad hwn am sylwadau. I'r Ysgrifennydd Gwladol (ac i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn atgyfeirio), byddwn yn rhoi'r holl sylwadau perthnasol (gan gynnwys y rhai cyfrinachol) i'w galluogi i wneud ei phenderfyniad. Os yw eich sylwadau'n cynnwys deunydd cyfrinachol, byddwn yn gofyn am fersiwn lawn gyda gwybodaeth gyfrinachol wedi'i hepgor, ynghyd â rhesymau pam y dylid trin y sylwadau'n gyfrinachol, er mwyn helpu i benderfynu beth allai fod yn briodol i gyfeirio ato'n gyhoeddus yn ystod y gwaith hwn.

1.9 Sylwch, os bydd unrhyw un yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol iawn i ni yn y cyd-destun hwn, mae hynny'n drosedd, ac os ceir chi'n euog, gallech gael eich cosbi drwy ddirwy a/neu ddwy flynedd o garchar.[7]

1.10 Bydd Ofcom yn cwblhau ei adroddiad ac yn ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn 9am ar **11 Mawrth 2024,** ynghyd ag unrhyw ddeunydd arall a allai fod yn berthnasol i'w phenderfyniad. Wedyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r achos at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'w ddadansoddi ymhellach. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi ei phenderfyniad hi a'n hadroddiad ni ar yr un pryd.

[7] Adran 117 o'r Ddeddf.

# A1. Dalen cyflwyno ymateb

## Manylion sylfaenol

Teitl y gwahoddiad i gyflwyno sylwadau:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):
Enw'r ymatebydd:
Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):
Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd ☐
Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
Yr ymateb cyfan ☐
Sefydliad ☐
Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Enw Llofnod (os yw'n gopi caled)